Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 24 Hydref 2013**

Amser:
**09:00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Leanne Hatcher**
Dirprwy Glerc y Pwyllgor
029 2089 8032
pwyllgor.CCLll@cymru.gov.uk

## Agenda

**Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod (9:00-09:15)**

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15 - Sesiwn dystiolaeth gyda Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (09:15-10:45) (Tudalennau 1 - 12)

Jeff Cuthbert AC, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Owain Lloyd, Pennaeth y Tîm Gweithrediadau
Amelia John, Dirprwy Gyfarwyddwr, Dyfodol Tecach
Eleanor Marks, Dirpwy Cyfarwyddwr Adran Cymunediau

**Egwyl - (10:45-11:00)**

### 3 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15 - Sesiwn dystiolaeth gyda Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (11:00-12:00) (Tudalennau 13 - 21)

John Griffiths AC, y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

Huw Brodie, Cyfarwyddwr, Diwylliant a Chwaraeon

Huw Davies, Pennaeth Cyllid, Diwylliant a Chwaraeon

## 4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014–15 – Sesiwn dystiolaeth gyda Gweinidog Cyllid (12:00–12:45) (Tudalennau 22 - 29)

Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid

Jo Salway, Dirprwy gyfarwyddwr, Cyllidebu Strategol

Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol

## 5 Papurau i'w nodi (Tudalennau 30 - 31)

**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

**CELG(4)-28-13 papur 1**

**Dyddiad:** **24 Hydref 2013**

**Teitl:** **Papur tystiolaeth – Dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft - Cymunedau ar gyfer 2014-15.**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi sylwadau a gwybodaeth i'r Pwyllgor am gynigion y Cymunedau ar gyfer cyllidebau'r rhaglenni yn y dyfodol a amlinellwyd yn y Gyllideb Ddrafft a gyhoeddwyd ar 8 Hydref 2013.

## 2. Cefndir

O gymharu â'r cynlluniau dangosol a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol 2013-14, fel yr ailddatganwyd yn dilyn yr ad-drefnu ym mis Mawrth 2013, mae cyfanswm dyraniad y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) ar gyfer Prif Grŵp Gwariant (MEG) Cymunedau a Threchu Tlodi (CTP) wedi cynyddu £0.4m yn 2014-15 i £212.7m.

Ceir gostyngiad net yn y DEL Adnoddau o £3.6m yn 2014-15 i £192.2m. Y cynllun dangosol ar gyfer DEL Adnoddau 2015-16, a gyhoeddir am y tro cyntaf yw £191.5m.

Ceir cynnydd net yn y gyllideb cyfalaf o £4m yn 2014-15 i £20.5m, yn dilyn dyraniad i gefnogi'r blaenoriaethau yng Nghynllun Buddsoddi Seilwaith Cymru i ariannu lleoliadau Dechrau'n Deg. Y cynllun dangosol ar gyfer DEL Cyfalaf 2015-16, a gyhoeddir am y tro cyntaf yw £14.5m.

Dengys y tablau ariannol cryno canlynol yr effaith gyffredinol ar gyllideb sylfaenol Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) CTP.

**Tablau Ariannol Cryno:**

| **MEG CTP** | Cyllideb Atodol 2013-14 £000 | Cyllideb Derfynol Cynlluniau Dangosol wedi'u Hailddatgan 2014-15 £000 | Newidiadau 2014-15 £000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau newydd 2014-15 £000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau newydd 2015-16 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| DEL Adnoddau | 187,556 | 195,871 | -3,625 | 192,246 | 191,534 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| DEL Cyfalaf | 24,450 | 16,450 | 4,000 | 20,450 | 14,450 |
| Gwaelodlin DEL | 212,006 | 212,321 | 375 | 212,696 | 205,984 |

O fewn y MEG CTP, crynhoir yr elfennau penodol ar gyfer Cymunedau yn y tabl isod.

| **Cefnogi Cymunedau a Phobl** | Cyllideb Atodol 2013-14 | Cyllideb Derfynol Cynlluniau Dangosol wedi'u Hailddatgan 2014-15 £000 | Newidiadau 2014-15 £000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2014-15 £000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau newydd 2015-16 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| DEL Adnoddau | 67,097 | 65,712 | -1,700 | 64,012 | 61,500 |
| DEL Cyfalaf | 10,950 | 10,950 | 0 | 10,950 | 10,950 |
| Gwaelodlin DEL | 78,047 | 76,662 | -1,700 | 74,962 | 72,450 |

## 3. Trosolwg o'r Gyllideb

Nod cyffredinol yr adran Cymunedau a Threchu Tlodi yw uno gwaith Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid wrth drechu tlodi a chyflawni dyfodol tecach i gymunedau, teuluoedd ac unigolion, o fewn cyd-destun datblygu cynaliadwy.

Mae gan yr Adran nifer o flaenoriaethau penodol sy'n adlewyrchu a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu, y mae llawer ohonynt yn cael effaith uniongyrchol ar Gymunedau:

- trechu tlodi a hyrwyddo cydnerthu cymunedol gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf;
- lleihau effaith diwygio lles;
- cynyddu cynhwysiant ariannol a digidol, gan gynnwys y Gronfa Cymorth Dewisol ac Undebau Credyd;
- cefnogi teuluoedd a phlant, yn enwedig drwy Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf;
- cefnogi'r gwaith o ddatblygu’r Trydydd Sector a gwella ei gydberthynas strategol â'r Llywodraeth;
- hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant;
- datblygu Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, sydd â'r nod o helpu i ddiogelu cymunedau ledled Cymru at y dyfodol.

## 4. Rhaglen Lywodraethu

Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi

Mae'r **Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi** 'Creu Cymunedau Cryf' yn nodi sut y bydd Gweinidogion yn targedu adnoddau ar draws adrannau i atal tlodi a lleddfu ei effaith ar fywydau pobl, tra'n helpu pobl hefyd i gael gwaith sy'n hollbwysig er mwyn helpu i godi pobl allan o dlodi. Rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion ar y meysydd lle y gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf ac mae hyn yn cynnwys:

- creu 5,000 o gyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth ar gyfer aelwydydd lle nad oes neb yn gweithio;
- gwella cyrhaeddiad addysgol plant o deuluoedd incwm isel;
- lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt yn ennill nac yn dysgu.

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn ymrwymiad clir, ar draws Llywodraeth Cymru, y byddwn yn defnyddio ein hadnoddau i helpu'r rheini sydd â'r angen mwyaf ar hyn o bryd ac atal cenedlaethau'r dyfodol rhag profi tlodi. Nid oes gan y Cynllun linell cyllideb ar wahân gan y caiff ei chario ymlaen ar draws y Llywodraeth, gydag adnoddau a rhaglenni yn cael eu hailffocysu er mwyn sicrhau y cyrhaeddir y targedau uchelgeisiol.

Rydym wedi ymrwymo i gyflwyno adroddiad blynyddol ar gynnydd y targedau a'r cerrig milltir yn y cynllun a sefydlwyd Bwrdd Gweithredu wedi'i gadeirio gan y Dirprwy Weinidog i fonitro cynnydd.

Cymunedau yn Gyntaf

Mae'r **Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf** wedi cael ei hailfodelu'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf a'i datblygu yn Rhaglen Trechu Tlodi sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned gyda chylch gwaith cyson i gefnogi'r bobl fwyaf difreintiedig yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

Sefydlwyd 52 o Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf, a rhyngddynt maent yn cynnwys 10% o'r ardaloedd daearyddol mwyaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011. Dyfarnwyd dros £75m o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i'r Clystyrau hyn ar gyfer y cyfnod hyd at fis Mawrth 2015.

Yn gyson â themâu twf a swyddi; cyrhaeddiad addysgol; a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig, strwythurir y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf o amgylch tri chanlyniad: cymunedau ffyniannus; cymunedau dysgu; a chymunedau iach. Mae pob clwstwr wedi llunio cynllun cyflenwi sy'n nodi'r camau gweithredu a gymerir i gefnogi'r canlyniadau hyn, ynghyd â ffyrdd y caiff llwyddiant y camau gweithredu hynny ei fesur.

Mae cyllideb Cymunedau yn Gyntaf yn cefnogi amrywiaeth o gamau gweithredu "plygu rhaglenni" allweddol. Mae plygu rhaglenni yn darparu adnoddau ychwanegol, gan gynnwys cyllid a staff i gyflawni blaenoriaethau allweddol ar draws adrannau ac asiantaethau partner Llywodraeth Cymru. Mae'r rhaglenni

hyn a ariennir ar y cyd yn cynnwys: gwaith gydag ysgolion drwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion i wella cyrhaeddiad addysgol plant yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf; Gwasanaethau Iechyd i ddarparu Archwiliadau Iechyd i Bobl Dros 50 Oed; Y Ganolfan Byd Gwaith i wneud cyngor ar gyflogaeth yn fwy hygyrch; a Twf Swyddi Cymru i greu cyfleoedd newydd am swyddi i bobl ifanc. At ei gilydd, bydd ychydig o dan £4m ar gael i gefnogi'r camau gweithredu hyn yn 2014-15.

Cynhwysiant Ariannol

Byddwn yn parhau i gefnogi Cyngor ar Bopeth Cymru i weinyddu'r cynllun defnyddio budd-dal cyfunol - **Cyngor Da, Bywyd Da** (BABL), gyda chyllid wedi'i ddiogelu o £2.2m yn 2014-15. Mae hyn yn arbennig o bwysig o gofio'r newidiadau o ran Diwygio Lles gan fod BABL yn annog y defnydd o fudd-dal ymhlith teuluoedd sydd â phlant anabl, y rhai y mae tlodi yn debygol o effeithio ar eu hiechyd, ac ar gyfer Budd-dal y Dreth Gyngor a Budd-dal Tai. Yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun mae cyfanswm o 20,919 o bobl wedi cael cymorth gyda 55,289 o faterion ac arweiniodd hyn at gadarnhau bron £17m o fudd-daliadau ychwanegol.

Diwygio Lles

Fel rhan o raglen barhaus Llywodraeth y DU i ddiwygio lles, diddymwyd y Gronfa Gymdeithasol ddewisol ar 31 Mawrth 2013. Trosglwyddwyd arian i Lywodraeth Cymru er mwyn gweinyddu cynllun arall yn ei lle o 2il Ebrill 2013, sef y **Gronfa Cymorth Dewisol.** Mae Gwasanaethau Cyhoeddus Northgate yn darparu'r cynllun (o dan gontract i Lywodraeth Cymru) gan weithio mewn partneriaeth â Chronfa'r Teulu a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r arian grant hwn yn werth £10.2m y flwyddyn ac yn cynnig taliadau, neu gymorth mewn nwyddau i bobl sy'n agored i niwed neu bobl ddifreintiedig er mwyn eu galluogi i fyw'n annibynnol neu barhau i wneud hynny, ac yn rhoi cymorth brys i bobl y nodwyd bod angen diogelu eu hiechyd a'u lles. Gwnaed darpariaeth i werthuso ei effaith wrth **gefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig** a helpu i **atal** sefyllfaoedd argyfyngus rhag digwydd eto drwy ei gysylltiadau â gwasanaethau cymorth eraill.

Rydym hefyd yn ymestyn ein rhaglen gymorth i gyn-weithwyr anabl Remploy yng Nghymru drwy'r **Grant Cymorth i Gyflogwyr (ESG)**. Yn ystod 2012 cyhoeddodd Llywodraeth y DU fod nifer o ffatrïoedd Remploy yn mynd i gau o dan 'Gam 1' o'i chynlluniau. Mewn ymateb, lansiodd Llywodraeth Cymru yr ESG er mwyn helpu gweithwyr cymwys Remploy a oedd wedi'u dadleoli i ddod o hyd i waith newydd. Ym mis Mai 2013, cyhoeddwyd y bydd gweithwyr cymwys Remploy yr effeithir arnynt gan 'Gam 2' hefyd yn cael yr un lefel o gymorth gan Lywodraeth Cymru. Dengys y ffigurau diweddaraf (ar 30 Awst 2013) fod y cynllun wedi helpu 117 o gyn-weithwyr Remploy i ddod o hyd i swyddi newydd. Mae'r cynllun bellach wedi cael ei ymestyn fel y gellir gwneud cais hyd at fis Mawrth 2014. Caiff y pecyn cymorth ei ariannu drwy hyd at £2.4 miliwn o arian Llywodraeth Cymru.

Undebau Credyd

Ein gweledigaeth ar gyfer **Undebau Credyd** yw gweithio tuag at fudiad Undeb Credyd cynaliadwy a all gefnogi pobl sydd wedi'u hallgáu'n ariannol ac **atal** problemau rhag codi o ganlyniad i ddyledusrwydd neu ddiffyg cyllidebu. Mae Undebau Credyd yn gyfranwyr allweddol o ran trechu tlodi ac allgáu ariannol lle y mae'n parhau i fodoli yn ein cymunedau. Ar ddiwedd mis Mehefin 2013, roedd 34 o swyddfeydd Undebau Credyd, a cheir cyfanswm o 256 o fannau casglu ledled Cymru. Rhoddir ystyriaeth i ba gyllid fydd ar gael o fis Ebrill 2014 ymlaen i gefnogi Undebau Credyd i dreiddio 6% i'r farchnad erbyn 2010.

Y Trydydd Sector

Yn dilyn ymgynghoriad ar y gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yn 2013, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn sefydliadau seilwaith y Trydydd Sector er mwyn sicrhau y caiff sefydliadau gwirfoddol ledled Cymru eu cefnogi, eu hatgyfnerthu a'u galluogi i gyfrannu'n gadarn at drechu tlodi yn arbennig a helpu'r bobl fwyaf difreintiedig a'r **cymunedau mwyaf difreintiedig**.

Yn amodol ar gyhoeddiadau yn y dyfodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad, rhagwelwn y bydd ffocws cynyddol ar gefnogaeth leol i sefydliadau gwirfoddoli a chymunedol ac ailgydbwyso rolau sefydliadau seilwaith allweddol ar lefelau awdurdodau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn helpu i gyflawni hyn. Bydd cyllideb seilwaith y Trydydd Sector o £7.3m yn 2014-15 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer arloesedd sydd â'r nod o wneud y sector yn fwy cynaliadwy a gwella cydweithio â'r sector cyhoeddus ar bob lefel.

Cydraddoldebau

I gydnabod y pwysigrwydd a roddwn ar gydraddoldeb rydym wedi diogelu cyllid ar y lefelau cyfredol ar gyfer arian grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant ar gyfer y trydydd sector. Mae hyd at £1.6m wedi ei neilltuo i arian grant yn 2014-15. Nod cyffredinol y grant yw darparu arian grant i sefydliadau yn y trydydd sector er mwyn eu helpu i hyrwyddo cydraddoldeb, mynd i'r afael â gwahaniaethu ac annog cymunedau cydlynol a chynhwysol ledled Cymru. Ailddatblygwyd y grant yn dilyn ymgynghoriad yn 2012-13 sydd wedi sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r amgylchedd economaidd a chymdeithasol cyfredol yng Nghymru a'i fod yn gyson â blaenoriaethau cydraddoldeb a chynhwysiant y Rhaglen Lywodraethu.

Sipsiwn a Theithwyr

Mae Sipsiwn a Theithwyr ymhlith y bobl dlotaf a mwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas. Un o amcanion allweddol y Rhaglen Lywodraethu yw gwella safleoedd Sipsiwn a Theithwyr sy'n eiddo i awdurdodau lleol ledled Cymru. Rydym yn cynnig arian cyfalaf i awdurdodau lleol yng Nghymru i adnewyddu safleoedd awdurdodau lleol presennol ac arian tuag at adeiladu safleoedd newydd. **Bydd plant a theuluoedd** yn well eu byd o ganlyniad i'r rhaglen hon oherwydd bydd yn arwain at safonau byw gwell i Sipsiwn a Theithwyr sydd naill ai'n byw mewn llety is na'r safon ar safleoedd presennol neu sy'n byw ar

wersylloedd diawdurdod neu a oddefir oherwydd y diffyg darpariaeth o ran safleoedd.

Mae'r newid o 75% i 100% o arian grant yn 2011 wedi arwain at welliant sylweddol yn nifer y rhai sy'n derbyn yr arian. Mae hyn yn cynnwys cytundeb i ariannu'r safle Sipsiwn a Theithwyr newydd cyntaf yng Nghymru ers 1997. Diogelwyd y gyllideb ar gyfer 2014-15 ar £1.5m a bydd yn gwneud cyfraniad amlwg i'r gwaith o gyflwyno'r Rhaglen Lywodraethu, yn enwedig yr ymrwymiad i hyrwyddo cyfle cyfartal a mynd i'r afael â gwahaniaethu a'r ymrwymiad i greu cymunedau mwy cynhwysol a chydlynol.

Bydd gwella trefniadau byw presennol a chreu safleoedd newydd yn esgor ar nifer o fuddiannau i **blant a theuluoedd** Sipsiwn a Theithwyr. Bydd plant yn cael budd o lefelau presenoldeb a chyrhaeddiad gwell o fewn y system addysg oherwydd bydd gweithwyr addysg proffesiynol yn gallu meithrin cydberthnasau sefydlog, llawn ymddiriedaeth â theuluoedd. Gall gwella safleoedd neu ddarpariaeth o ran safleoedd hefyd arwain at lai o debygolrwydd y bydd plant yn gorfod byw neu chwarae mewn amgylcheddau anniogel. Bydd iechyd sipsiwn a theithwyr yn gwella, er enghraifft, drwy fanteisio ar ofal iechyd **ataliol**, gan gynnwys brechu plant am fod ymwelwyr iechyd yn gallu cysylltu â theuluoedd nad oeddent yn gallu cysylltu â hwy o'r blaen. Mae hefyd yn debygol y caiff Sipsiwn a Theithwyr eu hintegreiddio'n fwy hefyd gan y bydd unigolion yn gallu manteisio ar gyfleusterau lleol, gan feithrin cydberthnasau mwy sefydlog o fewn eu cymunedau, a bodloni ein hymrwymiad i greu cymunedau cynhwysol a chynaliadwy.

## 5. Deddfwriaeth

Yn y Rhaglen Lywodraethu, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddeddfu er mwyn ymgorffori datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru, a sefydlu corff datblygu cynaliadwy annibynnol.

Mae Bil Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn cael ei ddatblygu i ddiogelu ein cymunedau at y dyfodol fel y cânt hwy a'r bobl sy'n byw ynddynt eu diogelu rhag pwysau sy'n bygwth eu hyfywedd a'u goroesiad. Yr hyn rydym am ei weld yw bod sefydliadau, pan fyddant yn diwallu anghenion byrdymor dybryd, megis lleddfu effaith pwysau economaidd ac ariannol a chefnogi twf a swyddi, yn gallu gwneud pob ymdrech i ddiogelu buddiannau hirdymor pobl Cymru, gan fynd i'r afael â heriau o ran pontio'r cenedlaethau megis anghydraddoldebau iechyd, gwella sgiliau a lleddfu effaith newid yn yr hinsawdd.

Rydym yn ymrwymedig i gyflwyno Bil yn y tymor Cynulliad hwn ac wrth ddatblygu'r cynigion ar gyfer y Bil rydym wedi cynnwys ac ymgynghori ag ystod eang o randdeiliaid. Cyhoeddwyd Datganiad Ysgrifenedig ar 14 Hydref, yn rhoi'r newyddion diweddaraf i Aelodau'r Cynulliad ar Fil Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ystyriodd yr ymgynghoriad a ddaeth i ben yn ddiweddar 'Parhad a Newid - Adnewyddu'r Berthynas Rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector' a oes

angen deddfwriaeth yn y maes hwn. Mae dadansoddiad o'r ymatebion yn mynd rhagddo a byddwn yn ystyried a oes angen Bil Compactau Statudol y Trydydd Sector.

Mae cwmpas a chyrhaeddiad eang y portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi yn golygu y bydd y mwyafrif o'r Deddfau a'r Biliau o fewn y Rhaglen Ddeddfwriaethol yn effeithio arno. Mae'r Adran Cymunedau a Threchu Tlodi yn ymgysylltu â Thimau Biliau ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru i drafod ac ystyried yr effeithiau hynny. Mae eitemau sydd o ddiddordeb arbennig yn cynnwys:

- Y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
- Bil yr Amgylchedd
- Y Bil Diwygio Cynllunio
- Y Bil Tai
- Y Bil Safleoedd Cartrefi Symudol

Yn benodol, mae Bil Tai (Cymru) yn cynnig cyflwyno dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr lle mae angen nas bodlonwyd. Bydd y ddeddfwriaeth yn ceisio mynd i'r afael â'r diffyg difrifol o ran lleiniau Sipsiwn a Theithwyr awdurdodedig. Bydd y ddyletswydd yn defnyddio'r Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ac ni ddylai roi baich ariannol ychwanegol ar awdurdodau lleol. Er mwyn cyflawni'r nod hwn yn gynt, rydym hefyd yn ystyried a ellir sicrhau cyfalaf ychwanegol i gyd-fynd â gweithredu'r Bil Tai.

Yn ogystal â'r Rhaglen Ddeddfwriaethol, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei rhaglen ddeddfwriaethol yn Araith y Frenhines yn gynharach eleni. Mae gan yr Adran Cymunedau a Threchu Tlodi ddiddordeb penodol yng nghynnwys y Bil Mewnfudo. Er ei bod heb ei datganoli yn bennaf, gall y ddeddfwriaeth hon effeithio ar faterion datganoledig neu faterion y mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol amdanynt. Lle mae angen Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol cânt eu cyflwyno'n brydlon. Mae trafodaethau ynghylch goblygiadau ariannu yn mynd rhagddynt gyda Llywodraeth y DU fel rhan o'r trafodaethau ehangach ar gynnwys y ddeddfwriaeth.

## 6. Cyfalaf

Mae llinell Cyllideb Cyfalaf y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol ar hyn o bryd yn ariannu tri chynllun gwahanol gydag ymrwymiadau cyfredol, sef Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol (CFAP), Cronfa Arallgyfeirio Swyddfeydd Post (PODF) a Chronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT). Rwy'n ystyried yr opsiwn o gynllun newydd ar hyn o bryd gan ystyried yr ymatebion i ymgynghoriad CFAP. Fy nod yw i gynllun newydd ddechrau yn ystod blwyddyn ariannol 2014-15.

Y llinell gyfalaf arall yw'r Grant Cyfalaf Sipsiwn a Theithwyr y cyfeirir ato mewn rhannau eraill o'r papur hwn ac a gaiff ei gynnal ar y lefel gyfredol hyd at £1.5m o 2014-15 ymlaen.

## 7. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Grant Cymorth i Gyflogwyr (Remploy)

Gwnaethom lansio'r Grant Cymorth i Gyflogwyr (ESG) er mwyn helpu gweithwyr cymwys Remploy a oedd wedi'u dadleoli i ddod o hyd i waith newydd. Mae hyn yn cefnogi Amcanion 2 a 5 Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol, o fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (SEP).

Nod ESG yw helpu gweithwyr sy'n wynebu diweithdra oherwydd penderfyniad Llywodraeth y DU i gau ffatrïoedd Remploy yng Nghymru. Mae'r arian ar gael i sefydliadau a all gynnig cyflogaeth addas i gyn-weithwyr anabl Remploy am isafswm o bedair blynedd. Mae'r cymorth hefyd ar gael i gyn-weithwyr anabl Remploy sydd wedi dod yn hunangyflogedig neu sy'n bwriadu dechrau eu busnes eu hunain. Ym mis Mai 2013, cyhoeddwyd y bydd gweithwyr cymwys Remploy yr effeithir arnynt gan 'Gam 2' hefyd yn cael yr un lefel o gymorth gan Lywodraeth Cymru.

Bydd hyn yn eu diogelu ac yn ymestyn yr effeithiau cadarnhaol ar y bobl anabl hynny yng Nghymru, a'u helpu i barhau i fod yn aelodau gweithredol o weithlu Llafur Cymru, a mwynhau'r buddiannau a geir gan bobl eraill o ran cyflogaeth, gan gynnwys chwarae rhan weithredol yn eu cymunedau lleol. Er mwyn cefnogi'r cyfleoedd hyn am swyddi i bobl anabl yng Nghymru dros gyfnod o bedair blynedd, rydym yn helpu i sicrhau gweithlu cynhwysol a chynhyrchiol sy'n gynaliadwy. Ceir cysylltiadau â thlodi yn aml i'r rheini sy'n anabl, yn bennaf oherwydd rhesymau megis diffyg incwm a ddaw yn sgil y ffaith na allant sicrhau cyflogaeth oherwydd eu hanabledd. Felly, mae'r arian hwn yn creu effeithiau economaidd-gymdeithasol cadarnhaol.

Arian Seilwaith ar gyfer y Trydydd Sector

O ganlyniad i'r ymgynghoriad "Parhad a Newid: Adnewyddu'r Berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yng Nghymru" a ddaeth i ben ar 8 Awst 2013, mae'n debygol y gwneir newidiadau er mwyn gwella'r cysylltiad rhwng y ddwy ochr ac ailgydbwyso’r cymorth a roddir i arian seilwaith. Ar y lefelau a gynigir, mae'n debygol na chaiff y lleihad yn y gyllideb yn 2014-15 a 2015-16 fawr ddim effaith, neu effaith fach iawn, ar y rhai â nodweddion gwarchodedig. Ystyriwyd yr effeithiau ar gydraddoldeb drwy gydol y broses a bydd hyn yn cyfrannu at asesiad llawn o effeithiau unrhyw newidiadau ar gydraddoldeb ar ôl i'r ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu dadansoddi a'r opsiynau ar gyfer newid gael eu pennu.

Gwasanaethau Cyngor

Nododd y Rhaglen Lywodraethu ein hymrwymiad i gefnogi darparwyr cyngor yn y trydydd sector i helpu pobl sydd â phroblemau dyled a helpu pobl i reoli eu harian. Mae amcan un y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn canolbwyntio'n benodol ar atgyfnerthu gwasanaethau cyngor a gwybodaeth. Mae'r camau

gweithredu i fwrw ymlaen â'r amcan hwn yn cael eu rhoi ar waith yn sylweddol fel rhan o'r Adolygiad o Wasanaethau Cyngor. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Hadolygiad o Wasanaethau Cyngor ym mis Mai 2013 ac mae gwaith yn mynd rhagddo gan y Fforwm Darparwyr Cyngor Annibynnol ar ymateb y sector i'r adolygiad. O ran arian, gwnaethom gyfuno cynlluniau presennol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â defnyddio budd-daliadau (Cyngor Da, Iechyd Da, Defnyddio Budd-daliadau ar gyfer Plant ag Anableddau a Defnyddio Budd-dal y Dreth Gyngor a Budd-dal Tai) er mwyn gwella'r gwasanaethau cyngor sydd ar gael yng Nghymru.

Byddwn yn parhau i gefnogi'r gwaith y mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn ei wneud ledled Cymru i helpu'r rhai mwyaf agored i niwed a mwyaf difreintiedig, gan gynnwys y cynllun defnyddio budd-daliadau cyfunol - Cyngor Da, Bywyd Da (BABL) y mae'n ei weinyddu gyda £2.2m o arian a ddiogelir yn 2014-15.

Cymunedau yn Gyntaf

Mae cynnwys cymunedau, cydraddoldebau a chynhwysiant yn parhau i fod yn flaenoriaethau hollbwysig ar gyfer pob elfen o raglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae pob Clwstwr wedi datblygu Cynllun Cynnwys Cymunedau i ddangos sut y caiff pobl leol yn gyffredinol, a grwpiau ac unigolion ymylol yn enwedig, eu cynorthwyo gan y rhaglen leol a sut y byddant yn cyfrannu ati. Mae'r cynlluniau hyn eisoes ar waith a chânt eu hatgyfnerthu a'u mireinio ymhellach wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Caiff yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldebau a gynhaliwyd yn 2012 ei adolygu drwy gydol y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a bydd angen ystyried yn ofalus sut y caiff unrhyw ostyngiadau eu gwneud a'u rheoli. Fodd bynnag, bydd y Rhaglen Trechu Tlodi Gymunedol ar ei newydd wedd, sydd â chylch gwaith cyson i helpu'r bobl fwyaf difreintiedig yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, yn parhau a byddwn hefyd yn parhau i ddyfarnu £75m hyd at fis Mawrth 2015 i'r 52 o Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi amrywiaeth o gamau "plygu rhaglenni" allweddol mewn partneriaeth ag adrannau eraill Llywodraeth Cymru ac asiantaethau partner.

Cynhwysiant Digidol

Mae ein gwaith ar gynhwysiant digidol wedi'i wreiddio mewn cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb, ac mae cysylltiad cryf rhyngddo a blaenoriaethau Trechu Tlodi a blaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru. Awgryma'r dystiolaeth fod pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn fwy tebygol o fod yn hŷn, yn anabl, yn byw mewn ardaloedd difreintiedig ac ar incwm isel, sy'n cynnwys tenantiaid tai cymdeithasol a phobl ddi-waith. Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar y grwpiau hyn fel y gallant wella ansawdd eu bywyd a'u cyfleoedd mewn bywyd drwy fwynhau'r buddiannau y gall y rhyngrwyd a thechnolegau digidol eraill eu cynnig.

Drwy'r Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol a gwaith ein rhaglen cynhwysiant digidol Cymunedau 2.0, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda sefydliadau allweddol sy'n cynrychioli'r bobl sy'n wynebu'r allgáu digidol mwyaf ac yn gweithio

gyda hwy.  Mae'r rhain yn cynnwys Age Cymru, Anabledd Cymru, RNIB, Shelter, Gofal a Thrwsio, clystyrau Cymunedau yn Gyntaf, Cymdeithasau Tai ac Awdurdodau Lleol.  Mae'r Rhaglen hefyd yn gweithio gyda grwpiau cydraddoldeb eraill gan gynnwys Chwarae Teg a grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Byddwn yn parhau i ddarparu £1m yn 2014-15 fel cyllid cyfatebol ar gyfer rhaglen cynhwysiant digidol Cymunedau 2.0 a ariennir gan Ewrop.

Cydraddoldebau

Caiff ein hymrwymiad i egwyddorion cydraddoldeb a thegwch ei adlewyrchu yn y penderfyniad i ddiogelu'r arian ar gyfer y Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant ar y lefel bresennol o hyd at £1.6m yn 2014-17.  Mae'r grant hwn yn darparu arian grant i grwpiau a sefydliadau yn y trydydd sector er mwyn eu helpu i hyrwyddo cydraddoldeb, mynd i'r afael â gwahaniaethu ac annog cymunedau cydlynol a chynhwysol ledled Cymru.  Mae gwaith sefydliadau yn y trydydd sector yn bwysig o ran helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni amcanion cydraddoldeb ei Chynllun Cydraddoldeb Strategol.

Drwy gynnal y lefel ariannu hon, gellir cyflawni effeithiau cadarnhaol ar gyfer pob grŵp gwarchodedig ledled Cymru.  Fodd bynnag, gan fod yr arian hwn yn seiliedig ar geisiadau, bydd yr effaith ar grwpiau penodol yn dibynnu ar y sefydliadau hynny sy'n gwneud cais ac yn llwyddo i gael arian.  Ar sail tueddiadau blaenorol o ran dosbarthiad yr arian a ddyfarnwyd, roedd y sefydliadau y dyfarnwyd arian iddynt yn 2012-13 yn cynrychioli’r holl nodweddion gwarchodedig (ac eithrio priodas a phartneriaeth sifil ac ailbennu rhywedd).  Yn benodol, cafodd grwpiau yn cynrychioli rhyw, hil ac ethnigrwydd, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd ac oedran arian drwy'r cynlluniau grant presennol. Gall sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau â nodweddion gwarchodedig sydd heb sefydliadau a ariennir, wneud cais am grantiau meithrin gallu fel rhan o'r cynllun newydd. Caiff yr arian effaith gadarnhaol sylweddol ar gydraddoldeb gan ei fod o fudd uniongyrchol i bobl sy'n aml yn wynebu allgau, anfantais a gwahaniaethu.

Mae'r arian grant hwn hefyd yn cyfrannu at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i drechu tlodi yng Nghymru. Dengys tystiolaeth fod grwpiau gwarchodedig penodol yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi, e.e. pobl anabl a rhieni unigol, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ferched. O ran merched, yn 2012-13, dyfarnwyd 20% o elfen gydraddoldeb y grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant i grwpiau a oedd yn gweithio i hyrwyddo cydraddoldeb i ferched.

Bydd yr arian grant yn helpu i gyflawni ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (SEP), sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, e.e. o ran mynd i'r afael â gwahaniaethau o ran cyflogau a gwaith, lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a helpu pobl anabl i fyw'n annibynnol.

Er mwyn sicrhau bod gwerth am arian cyhoeddus yn cael ei gynnal a bod y cynllun grant yn adlewyrchu'r cyd-destun economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol, cafodd y cynllun grant ei ailddatblygu yn 2012-13 gan ymgysylltu'n llawn â'r trydydd sector a'r sector statudol. Mae'r grant wedi cael ei ddiogelu ar ei lefel gwariant bresennol am y tair

blynedd nesaf, sy'n golygu y gellir gwneud gwaith cynllunio tymor hwy, ac mae wedi'i ailstrwythuro mewn ffordd sy'n golygu y caiff effaith fwy cynaliadwy ar ôl iddo gael ei gysoni â'r SEP (sydd, yn ei dro, yn seiliedig ar dystiolaeth ac ymgysylltu). Cafodd 14% o'r holl arian grant yn 2012-13 ei ddyfarnu i grwpiau a oedd yn cynrychioli oedran, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Mae hyn yn helpu i gefnogi a hyrwyddo hawliau plant ac yn cefnogi cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

<u>Sipsiwn a Theithwyr</u>

Caiff ein hymrwymiad i egwyddorion cydraddoldeb a thegwch ei adlewyrchu hefyd yn y penderfyniad i ddiogelu'r arian ar gyfer Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar y lefel bresennol o hyd at £1.5m o 2014-15 ymlaen. Mae hwn yn rhoi arian grant i awdurdodau lleol i'w helpu i wella safleoedd Sipsiwn a Theithwyr presennol sy'n eiddo i awdurdodau lleol a datblygu safleoedd newydd ledled Cymru. Mae'r gwaith i wella amodau byw ar safleoedd sy'n eiddo i awdurdodau lleol yng Nghymru yn bwysig er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i weithredu 'Teithio i Ddyfodol Gwell' - Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflenwi ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

Bydd cadw'r un lefel ariannu ar gyfer safleoedd yn golygu y gellir cyflawni amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol ledled Cymru. Dangosodd ymchwil gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fod Sipsiwn a Theithwyr yn wynebu problemau penodol o ran allgáu ac anghydraddoldeb. Bydd gan Sipsiwn a Theithwyr â llety ar safleoedd parhaol well mynediad at wasanaethau fel addysg ac iechyd.

Mae'r dystiolaeth bod angen gwella safleoedd yn cynnwys adolygiad yr Athro Niner yn 2006 o safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ledled Cymru. Tynnodd yr adolygiad hwn sylw at y gwaith adnewyddu brys yr oedd angen ei wneud i wella safleoedd awdurdodau lleol fel eu bod yn cyrraedd y safon ofynnol. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn fuan wedi hynny i fynd i'r afael â'r broblem hon. Yn fwy diweddar, cawsom adborth gan rai awdurdodau lleol a rhai Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ar safleoedd sy'n eiddo i awdurdodau lleol yn nodi bod angen atgyweirio a gwella safleoedd. Er bod arian dros y blynyddoedd diwethaf wedi gwella amodau byw i Sipsiwn a Theithwyr, mae angen gwneud rhagor o waith ledled Cymru i wella safonau safleoedd.

Mae'r arian grant hwn hefyd yn cyfrannu at ein hymrwymiad i drechu tlodi gan fod tystiolaeth yn awgrymu bod niferoedd sylweddol o Sipsiwn a Theithwyr yn byw mewn tlodi. Er enghraifft, mae nifer uwch o Sipsiwn a Theithwyr ifanc yn ôl cyfran sy'n hawlio prydau ysgol am ddim.

Er mwyn sicrhau bod gwerth am arian cyhoeddus yn cael ei gynnal a bod y cynllun grant yn adlewyrchu'r cyd-destun economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol, cafodd y broses o wneud cais am arian grant ei hailddatblygu yn 2012-13 gan ymgysylltu'n llawn â rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Ymhlith yr enghreifftiau diweddar o welliannau yn y maes hwn mae: adnewyddu ffyrdd mynediad i safleoedd; sicrhau nad oes ceblau trydan rhydd; mesurau arafu traffig, sydd i gyd wedi gwella iechyd a diogelwch

Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ar safleoedd presennol sy'n eiddo i awdurdodau lleol.

Mae Erthygl 27 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn datgan bod hawl gan bob plentyn i gael safon byw ddigonol ar gyfer ei ddatblygiad corfforol, meddyliol, ysbrydol, moesol a chymdeithasol. Dylai'r arian grant hwn, yn ogystal â'r ddyletswydd newydd arfaethedig, sicrhau bod plant yn byw ar safleoedd sy'n cyrraedd safonau gofynnol ac nid ar safleoedd diawdurdod, a all fod yn anniogel. Rhagwelir y bydd gan blant a phobl ifanc fynediad gwell at gyfleusterau addysg, gofal iechyd a chymunedol ac y cânt eu hintegreiddio'n well mewn cymunedau lleol os caiff safleoedd presennol eu gwella ac os caiff safleoedd newydd eu darparu o ganlyniad i ddyletswydd.

**Jeff Cuthbert AC**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**

**PRIF GRŴP GWARIANT CYMUNEDAU A THRECHU TLODI**

| | **CYLLIDEB REFENIW - Terfyn Gwariant Adrannol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SPA** | **Camau gweithredu** | **Teitl BEL** | **Cyllideb atodol 2013-14** | **Cyllideb Derfynol Cynlluniau Dangosol wedi'u Hailddatgan 2014-15** | **Newidiadau 2014-15** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau newydd 2014-15** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2015-16** |
| **Cefnogi Cymunedau a Phobl** | Y Trydydd Sector | Y Trydydd Sector | 8,000 | 8,000 | -700 | 7,300 | 7,000 |
| | | **CYFANSWM GWEITHREDU** | **8,000** | **8,000** | **-700** | **7,300** | **7,000** |
| | Trechu Tlodi | Cynhwysiant Ariannol | 16,177 | 16,177 | -200 | 15,977 | 14,977 |
| | | Cynhwysiant Digidol | 1,000 | 1,000 | | 1,000 | 1,000 |
| | | Diwygio Lles | 1,500 | 145 | | 145 | 0 |
| | | Cymunedau yn Gyntaf | 40,280 | 40,250 | -800 | 39,450 | 38,383 |
| | | Polisi Tlodi Plant | 140 | 140 | | 140 | 140 |
| | | **CYFANSWM GWEITHREDU** | **59,097** | **57,712** | **-1,000** | **56,712** | **54,500** |
| | | | | | | | |
| **Datblygu Cynaliadwy a Chydraddoldeb** | Datblygu Cynaliadwy a Chydraddoldeb | Cydlyniant Cymunedol | 500 | 200 | | 200 | 200 |
| | | Cronfa Datblygu Cynaliadwy | 776 | 776 | | 776 | 776 |
| | | Cronfa Cydraddoldeb a Chynhwysiant | 1,645 | 1,645 | | 1,645 | 1,645 |
| | | **CYFANSWM GWEITHREDU** | **2,921** | **2,621** | | **2,621** | **2,621** |
| | | | | | | | |
| | **Cyfanswm yr Adnoddau** | | **70,018** | **68,333** | **-1,700** | **66,633** | **64,121** |



| | **CYLLIDEB CYFALAF - Terfyn Gwariant Adrannol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SPA** | **Camau gweithredu** | **Teitl BEL** | **Cyllideb atodol 2013-14** | **Cyllideb Derfynol Cynlluniau Dangosol wedi'u Hailddatgan 2014-15** | **Newidiadau 2014-15** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2014-15** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2015-16** |
| **Cymunedau a Threchu Tlodi** | Cymunedau a Threchu Tlodi | | | | | | |
| | | Cyfleusterau Cymunedol | 10,950 | 10,950 | | 10,950 | 10,950 |
| | | Sipsiwn-Teithwyr | 1,500 | 1,500 | | 1,500 | 1,500 |
| | | **Cyfanswm GWEITHREDU** | **10,950** | **10,950** | **0** | **10,950** | **10,950** |
| | | | | | | | |
| | **Cyfanswm y Cyfalaf** | | **12,450** | **1** | **0** | **12,450** | **1** |
| | | | | | | | |
| | **Cyfanswm DEL** | | **82,468** | **80,783** | **-1,700** | **79,083** | **76,571** |

Tablau adnoddau = Y gwaelodlin a ddefnyddiwyd ar gyfer DEL Adnoddau yn 2014-15 yw'r un yng Nghyllideb Derfynol 2013-14, a ailddatganwyd i adlewyrchu newidiadau ym mhortffolio'r Gweinidog fel y cyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ym mis Mawrth
ac a addaswyd i adlewyrchu addasiadau rheolaidd i'r gwaelodlin a gynhwyswyd yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2013-14.  Nodir yr addasiadau hyn i'r gwaelodlin yn Atodiad D i naratif y Gyllideb Ddrafft.

Tablau cyfalaf = Y gwaelodlin a ddefnyddiwyd ar gyfer DEL Cyfalaf yn 2014-15 yw'r un yng Nghyllideb Derfynol 2013-14, a ailddatganwyd i adlewyrchu newidiadau ym mhortffolio'r Gweinidog fel y cyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ym mis Mawrth.

**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

**CELG(4)-28-13 papur 2**

**Dyddiad:** **24 Hydref 2013**

**Teitl:** **Papur tystiolaeth ar y Gyllideb Ddrafft: Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon**

## Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth ariannol gefndir i'r Pwyllgor am fy nghynlluniau gwariant fel y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, fel y'u hamlinellir yn y Gyllideb Ddrafft.

2. Mae Atodiad A yn rhestru cyfanswm ffigurau'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer Diwylliant a Chwaraeon fesul Cam Gweithredu a fesul Llinell Wariant o fewn pob Cam Gweithredu yn y Gyllideb. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys y cyllidebau ar gyfer y Tirlun a Hamdden Awyr Agored, sy'n dod o dan gylch gorchwyl Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Fel cyfanswm, mae'r ffigurau'n dangos cyllidebau refeniw sydd bron yn arian parod yn gostwng yn erbyn y cynlluniau dangosol blaenorol - byddant yn gostwng 3.6% yn 2014-15 ac yn gostwng 1.4% yn rhagor yn 2015-16, sy'n ostyngiad o 4.8% i gyd. Mae rhagor o fanylion isod am symudiadau mewn cyllidebau refeniw a chyllidebau cyfalaf.

3. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am wybodaeth am faterion cyllidebol penodol fel yr amlinellwyd yn yr Atodiad i'r llythyr a anfonwyd i wahodd y Gweinidog i'r sesiwn hon o'r Pwyllgor. Mae ymatebion wedi'u cynnwys yn y papur tystiolaeth hwn.

## Cefndir a Chrynodeb

4. Gellir crynhoi ffigurau'r gyllideb ddrafft ar gyfer Prif Grŵp Gwariant (MEG) Diwylliant a Chwaraeon sy'n dod o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol fel a ganlyn. Nid yw'r crynodeb hwn yn cynnwys ffigurau'r Maes Rhaglen Wariant (SPA) ar gyfer y Tirlun a Hamdden Awyr Agored:

| Maes Rhaglen Wariant | Cyllideb Atodol 2013-14 £'000 | Cyllideb Ddrafft 2014-15 £'000 | Cynlluniau Dangosol 2015-16 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Refeniw:** | | | |
| Celfyddydau | 34,758 | 33,408 | 33,158 |
| Amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd | 37,578 | 37,045 | 36,695 |
| Chwaraeon a gweithgarwch corfforol | 24,853 | 23,739 | 23,474 |
| Y Cyfryngau a Chyhoeddi | 3,926 | 3,726 | 3,626 |
| Yr amgylchedd hanesyddol | 11,641 | 11,481 | 11,436 |
| **CYFANSWM Y REFENIW** | **112,756** | **109,399** | **108,389** |
| | | | |
| **% y gostyngiad mewn refeniw** | | **3.0%** | **3.9%** |
| | | | |
| **Cyfalaf:** | | | |
| Celfyddydau | 355 | 355 | 355 |
| Amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd | 5,223 | 7,343 | 4,243 |
| Chwaraeon a gweithgarwch corfforol | 345 | 345 | 5,345 |
| Y Cyfryngau a Chyhoeddi | 25 | 25 | 25 |
| Yr amgylchedd hanesyddol | 5,331 | 5,031 | 5,031 |
| **CYFANSWM Y CYFALAF** | **11,279** | **13,099** | **14,999** |
| | | | |
| **CYFANSWM CYLLIDEB DEL** | **124,035** | **122,498** | **123,388** |
| | | | |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Darpariaethau pensiwn)** | **2,740** | **2,740** | **3,013** |
| | | | |
| **CYFANSWM Y CYLLIDEBAU O DAN GYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR HWN** | **126,775** | **125,238** | **126,401** |

5. Mae'r tabl hwn yn dangos bod y cyllidebau refeniw ar gyfer llinellau'r gyllideb sy'n dod o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn wedi gostwng 3.0% yn 2014-15 a 3.9% yn 2015-16 - o gymharu â ffigurau'r Gyllideb Atodol ar gyfer 2013-14. Fodd bynnag, mae hyn yn cuddio'r ffaith bod ffigurau 2013-14 yn cynnwys £685k ar gyfer Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Ar gyfer 2014-15 a 2015-16, mae cyllideb yr Ardd Fotaneg Genedlaethol wedi cael ei symud i SPA y Tirlun a Hamdden Awyr Agored, gan ei fod yn cyd-fynd yn well â'r rhaglenni o dan y SPA hwnnw, sy'n ariannu'r Parciau

Cenedlaethol a'r cyllidebau ar gyfer mynediad i gefn gwlad a'r arfordir. Os byddwn yn newid hyn - er mwyn sicrhau ein bod yn cymharu tebyg â'i debyg - gwir ganran y gostyngiadau yn y cyllidebau refeniw a ddangosir uchod yw **2.4% ar gyfer 2014-15 a 3.3% ar gyfer 2015-16.**

**Blaenoriaethau'r Gyllideb**

6. Mae'r portffolio Diwylliant a Chwaraeon yn gwbl ganolog i nod Llywodraeth Cymru i gyfoethogi bywydau unigolion a chymunedau drwy ein diwylliant, ein tirlun arbennig, ein treftadaeth a chwaraeon drwy ei gwneud yn bosibl i fwy o bobl eu mwynhau. Mae'r portffolio hefyd yn cyfrannu at swyddi a thwf, gan helpu i wella iechyd a chanlyniadau addysgol plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi a chreu ardaloedd cynaliadwy i bobl.

7. Mae datblygu cynaliadwy yn ganolog i bolisïau Diwylliant a Chwaraeon, gan gydbwyso anghenion byrdymor dybryd a buddiannau hirdymor pobl Cymru. Er enghraifft, mae cynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon ac sy'n gwneud ymarfer corff yn rhan annatod a phwysig o'n hymgyrch fel Llywodraeth i godi lefelau gweithgarwch corfforol yng Nghymru a gwella iechyd a lles y genedl.

8. Wrth lunio cynigion y Gyllideb, canolbwyntiwyd ar gyflawni'r blaenoriaethau canlynol:

- cynyddu gwerthfawrogiad o ddiwylliant a threftadaeth ac annog pobl i ymwneud â diwylliant a threftadaeth, er mwyn ategu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, ac yn enwedig ymhlith pobl ifanc;
- cryfhau cyfraniad y portffolio i'r economi;
- cynyddu'r nifer sy'n gwneud ymarfer corff er mwyn gwella iechyd.

**Newidiadau i'r Gyllideb - Refeniw**

9. O gymharu â chynlluniau dangosol ar gyfer 2014-15 a 2015-16 a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol 2013-14, mae'r prif newidiadau i'r gyllideb, sy'n dangos y gostyngiadau i gyllidebau'r cyrff a ariennir gan y portffolio Diwylliant a Chwaraeon, fel a ganlyn:

| **Sefydliad** | **Cyllideb Atodol 2013-14 £'000** | **Cyllideb Ddrafft 2014-15 £'000** | **Cynlluniau Dangosol 2015-16 £'000** |
|---|---|---|---|
| **Refeniw (Bron yn Arian Parod):** | | | |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | 33,671 | 32,621 | 32,371 |
| - Canran y gostyngiad o gymharu â 2013-14 | | 3.1% | 3.9% |
| | | | |
| Amgueddfa Genedlaethol Cymru | 22,436 | 22,236 | 22,136 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| - Canran y gostyngiad o gymharu â 2013-14 | | 0.9% | 1.3% |
| | | | |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | 10,121 | 9,921 | 9,721 |
| - Canran y gostyngiad o gymharu â 2013-14 | | 2.0% | 4.0% |
| | | | |
| Chwaraeon Cymru | 23,743 | 22,883 | 22,618 |
| - Canran y gostyngiad o gymharu â 2013-14 | | 3.6% | 4.7% |
| | | | |
| Cyngor Llyfrau Cymru | 3,926 | 3,726 | 3,626 |
| - Canran y gostyngiad o gymharu â 2013-14 | | 5.1% | 7.6% |
| | | | |
| Cadw (heblaw am staff Cadw) / Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | 3,707 | 3,647 | 3,602 |
| - Canran y gostyngiad o gymharu â 2013-14 | | 1.6% | 2.8% |

**Newidiadau i'r Gyllideb - Cyfalaf**

10. Gwnaed y dyraniadau ychwanegol canlynol i gyllidebau cyfalaf:

| **Maes Rhaglen Wariant** | **Cyllideb Ddrafft 2014-15 £'000** | **Cynlluniau Dangosol 2015-16 £'000** |
|---|---|---|
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | 3,300 | 200 |
| Chwaraeon a gweithgarwch corfforol | - | 5,000 |
| | | |
| **Cyfanswm** | **3,300** | **5,000** |

11. Bydd y dyraniad ychwanegol o £3.5m dros y ddwy flynedd i'r Llyfrgell Genedlaethol yn ei galluogi i wneud gwaith atgyweirio hanfodol yn dilyn y difrod tân, a bwrw ymlaen â gwaith i ddatblygu gwasanaethau archifo.

12. Yn unol â'r flaenoriaeth i gynyddu'r niferoedd sy'n gwneud ymarfer corff er mwyn gwella iechyd, caiff £5m ei ddyrannu yn 2015-16 i Gynllun Benthyg Cyfalaf ar gyfer Chwaraeon a Chyfleusterau Hamdden. Bydd y cynllun peilot newydd yn hwyluso dull o fuddsoddi cyfalaf mewn modd strategol ac integredig sy'n canolbwyntio ar fuddsoddi i arbed. Nod y cynllun yw gwella effeithlonrwydd a'r ffordd y caiff asedau a chyfleusterau chwaraeon a hamdden eu rheoli, cynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon ac sy'n gwneud ymarfer corff a chyfrannu at ganlyniadau iechyd.

**Gwariant a Reolir yn Flynyddol**

13. Mae'r cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer unrhyw daliadau pensiwn y gallai fod angen eu gwneud ar gyfer cynlluniau pensiwn Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. £2.740m yw'r cyfanswm ar gyfer 2013-14. Cyllideb nad yw'n arian parod yw hon.

**YMATEBION I'R WYBODAETH BENODOL Y GOFYNNODD Y PWYLLGOR AMDANI**

14. Mae'r ymatebion i'r wybodaeth benodol y gofynnodd y Pwyllgor amdani fel a ganlyn:

**Adroddiad ar gyllideb y flwyddyn ddiwethaf**

15. Copi o Linellau Gwariant Unigol y Gyllideb ar gyfer y portffolio - ymdriniwyd â hyn eisoes ym mharagraff 2 uchod, ac atodir copi yn Atodiad A.

**Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu**

16. Gellir cyflawni holl ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu gan ddefnyddio'r gyllideb sydd ar gael. Rhaid blaenoriaethu'r gwaith yn unol â'r cyllidebau cyffredinol. Yn amlwg, bydd pwysau ar gyllidebau - yn enwedig cyllidebau cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gyflawni rhai o'r ymrwymiadau. Fodd bynnag, yn ystod trafodaethau yr wyf wedi'u cael hyd yma a thrafodaethau y mae fy swyddogion wedi'u cael, pwysleisiwyd bod cyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu yn flaenoriaeth. Nodir hyn yn glir yn y Llythyrau Cylch Gwaith y byddaf yn eu hanfon at y cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru.

17. Rydym yn monitro i ba raddau y cyflawnir ymrwymiadau fy mhortffolio a'u canlyniadau cysylltiedig drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys fy nghyfarfodydd â Chadeiryddion a Phrif Weithredwyr y cyrff a noddir, a'r trafodaethau yn y cyfarfodydd Monitro Chwarterol a gynhelir gyda swyddogion. Yna cofnodir yr hyn a gyflawnwyd yn Adroddiad Blynyddol y Rhaglen Lywodraethu. Cynhelir gwerthusiadau o bryd i'w gilydd ac fel y bo'n briodol er mwyn sicrhau bod y canlyniadau dymunol yn cael eu cyflawni a bod y buddsoddiadau'n darparu gwerth am arian.

**Polisïau allweddol**

<u>Sut mae'r camau i ad-drefnu'r adran o dan bortffolio un Gweinidog wedi effeithio ar eich dyraniad cyllidebol eleni</u>

18. Roedd elfennau'r portffolio Diwylliant a Chwaraeon sy'n dod o dan gylch gwaith y Pwyllgor hwn yn rhan o'r portffolio Tai, Adfywio a Threftadaeth yn flaenorol. Gwelwyd rhywfaint o ostyngiad yn y gyllideb refeniw ar gyfer

2014-15 - 3.6% ar draws y MEG cyfan, ond 2.4% ar draws y meysydd sy'n dod o dan gylch gwaith y Pwyllgor hwn - gweler paragraff 5 uchod. Bu'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd oherwydd y sefyllfa gyllidebol gyffredinol.

19. Gwnaed dyraniadau cyfalaf ychwanegol fel y nodwyd uchod.

Pa drafodaethau rydych wedi'u cael â sefydliadau a rhanddeiliaid sy'n gyfrifol am weithredu polisïau yn eich portffolio cyn penderfynu ar ddyraniadau'r gyllideb

20. Rwy'n cyfarfod â'r sefydliadau a ariennir gennyf yn rheolaidd i drafod y cynnydd y maent yn ei wneud gyda'u gwaith a'r prif broblemau sy'n eu hwynebu, gan gynnwys eu sefyllfa ariannol. Hefyd, mae fy swyddogion wedi cynnal trafodaethau manwl â hwy am ba effaith y byddai gostyngiadau i'r gyllideb yn ei chael ar sail gwahanol senarios. Ystyriais y wybodaeth hon yn ofalus wrth benderfynu ar ddyraniadau'r Gyllideb Ddrafft.

Manylion unrhyw arian loteri ychwanegol ar gyfer chwaraeon a'r celfyddydau eleni ar ôl y Gemau Olympaidd

21. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi cyfanswm yr arian loteri ar gyfer chwaraeon a'r celfyddydau yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf, yn ogystal â ffigurau rhagamcanol i'r dyfodol:

| | **Chwaraeon £'000** | **Celfyddydau £'000** |
|---|---:|---:|
| 2010-11 | 9,680 | 10,841 |
| 2011-12 | 11,646 | 13,192 |
| 2012-13 | 16,533 | 18,450 |
| 2013-14 | 16,875 | 18,750 |
| 2014-15 | 16,911 | 18,790 |
| 2015-16 | 16,974 | 18,860 |
| 2016-17 | 17,037 | 18,930 |
| 2017-18 | 17,100 | 19,000 |

22. Mae'r ffigurau'n dangos bod arian y loteri wedi cynyddu'n sylweddol ar ôl i'r Gemau Olympaidd a'r gwaith paratoi ar eu cyfer ddod i ben. Ar ôl 2011-12, gwelwyd cynnydd sylweddol o tua 40%, ac yna gwelwyd cynnydd pellach yn unol â chwyddiant fwy neu lai.

Sut mae'r angen i weithredu'r Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol a'r gwaith ar strwythur Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn y dyfodol wedi effeithio ar y dyraniadau ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol

23. Mae'r dyraniad cyllideb refeniw ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol wedi gostwng £60k yn 2014-15, ac wedi gostwng £45k arall yn 2015-16. Mae'r gostyngiadau hyn yn fach iawn am y rhesymau canlynol:

- Mae'r gyllideb yn ariannu costau staff Cadw o £7,425k. Diogelwyd yr elfen hon o'r gyllideb oherwydd mai gwaith rheng flaen ydyw;
- Y gwaith sy'n cael ei wneud ar y Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol a strwythur Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn y dyfodol;
- Y cyfraniad y mae Cadw yn ei wneud i dwristiaeth, a'r mentrau sydd ar waith ganddo i wella mynediad i blant o gefndiroedd difreintiedig.

<u>Sut mae'r angen parhaus i fynd i'r afael â'r elfennau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan yn y celfyddydau a mynediad i hyrwyddo'r celfyddydau mewn ysgolion wedi effeithio ar ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer y celfyddydau</u>

24. Fel y nodais uchod, bu'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd ynghylch dyraniadau'r gyllideb. Cyfyngwyd y gostyngiad yng nghyllideb Cyngor Celfyddydau Cymru yn 2014-15 i 3.1% er mwyn adlewyrchu'r gwaith y bydd yn ei wneud i weithredu adolygiad Dai Smith o'r celfyddydau mewn addysg a rôl y celfyddydau o ran trechu tlodi.

<u>Pa effaith y mae'r camau i ailstrwythuro Amgueddfa Cymru a'r tân yn y Llyfrgell Genedlaethol wedi'i chael ar ddyraniadau'r gyllideb</u>

25. Rwyf wedi rhoi arian ychwanegol i Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn 2012-13 ac yn y flwyddyn gyfredol, 2013-14, er mwyn ei helpu i ailstrwythuro. Yn ogystal, mae cyllideb Amgueddfa Genedlaethol Cymru wedi'i diogelu i raddau helaeth ar gyfer 2014-15, gan inni gyfyngu'r gostyngiad i 0.9% o gofio'r cyfraniad sylweddol y mae'n ei wneud i'r economi drwy ddenu twristiaid i Gymru, a'i gwaith i helpu i drechu tlodi plant.

26. Rwy'n darparu £625k yn ychwanegol i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn ystod y flwyddyn gyfredol i ariannu gwaith adfer brys sydd ei angen yn dilyn y tân, ac mae'r swm hwnnw'n ychwanegol at ei dyraniad cyfalaf cynnal a chadw arferol. Rwyf hefyd yn dyrannu £3.5m yn ychwanegol iddi dros y ddwy flynedd nesaf (£3.3m yn 2014-15 a £0.3m yn 2015-16) a fydd yn ei galluogi i wneud atgyweiriadau hanfodol eraill yn dilyn y difrod tân a bwrw ymlaen â gwaith i ddatblygu gwasanaethau archifo. Hefyd, y flwyddyn nesaf, rwy'n rhoi £375k yn ychwanegol i'r Llyfrgell ar gyfer cyfalaf cynnal a chadw er mwyn ei helpu i wneud gwaith cynnal a chadw parhaus hanfodol.

<u>Sut y caiff arian ei ddarparu i weithredu'r Strategaeth Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli a Strategaeth Amgueddfeydd Cymru</u>

27. Rwy'n diogelu'r arian a ddyrannwyd er mwyn helpu i weithredu'r strategaethau llyfrgelloedd ac amgueddfeydd yn 2014-15. Mae'r strategaethau yn cyflawni blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys trechu tlodi, hyrwyddo llythrennedd a hybu iechyd a lles. Bydd gan lyfrgelloedd cyhoeddus rôl bwysig i'w chwarae o ran darparu

mynediad â chymorth am ddim i'r nifer gynyddol o wasanaethau cyhoeddus a ddarperir ar-lein yn bennaf, fel Paru Swyddi a Chredyd Cynhwysol. Mae ein rhwydwaith o amgueddfeydd lleol, ynghyd ag Amgueddfa Cymru, yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i hyrwyddo twristiaeth ddiwylliannol yng Nghymru.

Blaenoriaethau ar gyfer y cyfryngau yng Nghymru a sut y caiff y rhain eu hadlewyrchu yn nyraniadau'r gyllideb.

28. Caiff arian Llywodraeth Cymru i'r diwydiant cyhoeddi ei sianelu drwy Gyngor Llyfrau Cymru. Mae hyn yn cynnwys arian ar gyfer gwasanaeth newyddion ar-lein dyddiol yn Gymraeg yn ogystal â chyhoeddiadau newyddion a materion cyfoes cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys *Golwg, Y Cymro* a *Barn.*

29. Bydd cyllideb Cyngor Llyfrau Cymru yn gostwng £200k yn 2014-15 ac yn gostwng £100k arall yn 2015-16. Mae'r arian a ddyrennir i'r Cyngor Llyfrau hefyd yn cefnogi cylchgronau Saesneg sy'n ymdrin â sawl maes, gan gynnwys materion cyfoes/diwylliant. Y bwriad yw y caiff y ddarpariaeth ar gyfer elfen y cyfryngau o gyllideb Cyngor Llyfrau Cymru ei diogelu i raddau helaeth. Hefyd, mae rhai o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu mewn perthynas â'r cyfryngau yn ymwneud ag adnoddau staffio (a ariennir drwy'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu) yn hytrach nag arian rhaglenni o'r MEG Diwylliant a Chwaraeon.

Sut mae'r angen parhaus i gynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol yng Nghymru wedi cael ei adlewyrchu yn nyraniadau'r gyllideb

30. Unwaith eto, bu'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd ynghylch dyraniadau'r gyllideb. Mae dyraniad cyllideb refeniw Chwaraeon Cymru ar gyfer 2014-15 wedi gostwng 3.6%. Byddaf yn cyfarfod â Chwaraeon Cymru i drafod sut y gallwn flaenoriaethu'r rhaglenni a weithredir ganddo, er mwyn cyflawni ein hamcan o gynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan a gwireddu'r manteision a ddaw yn sgil hynny o ran lles ac iechyd gwell. Mae'r gyllideb o £3.546m ar gyfer Nofio am Ddim wedi cael ei diogelu.

31. Ar gyfer 2015-16, yn unol â'r flaenoriaeth i gynyddu'r niferoedd sy'n gwneud ymarfer corff er mwyn gwella iechyd, caiff £5m ei ddyrannu i Gynllun Benthyg Cyfalaf ar gyfer Chwaraeon a Chyfleusterau Hamdden. Bydd y cynllun peilot newydd yn hwyluso dull o fuddsoddi cyfalaf mewn modd strategol ac integredig sy'n canolbwyntio ar fuddsoddi i arbed. Nod y cynllun yw gwella effeithlonrwydd a'r ffordd y caiff asedau a chyfleusterau chwaraeon a hamdden eu rheoli, cynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon ac sy'n gwneud ymarfer corff a chyfrannu at ganlyniadau iechyd.

**Darpariaeth ar gyfer deddfwriaeth**

Gwybodaeth am ba mor debygol yw hi y bydd unrhyw ddeddfwriaeth Gymreig sydd wedi cael ei phasio, sy'n cael ei phasio ar hyn o bryd, neu sydd wedi'i chynllunio yn y rhaglen ddeddfwriaethol, yn cael unrhyw effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar yr agweddau yn eich portffolio yn ystod blwyddyn ariannol 2014-15

32. Mae un Bil yn y rhaglen ddeddfwriaethol o fewn y portffolio Diwylliant a Chwaraeon sy'n dod o dan gylch gwaith y Pwyllgor hwn, sef y Bil Treftadaeth. Diben y Bil hwn yw cyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i ddatblygu fframwaith cyfreithiol a fydd yn gwella'r modd y caiff amgylchedd hanesyddol Cymru ei reoli a'i ddiogelu. Os caiff ei basio, y Bil hwn fydd y ddeddfwriaeth dreftadaeth gyntaf i Gymru. Lansiwyd ymgynghoriad Papur Gwyn ym mis Gorffennaf a daeth i ben ar 11 Hydref.

33. Lluniwyd asesiad cychwynnol o oblygiadau ariannol y Bil. Mae'r rhan fwyaf o'r cynigion yn ddewisol neu nid oes iddynt unrhyw oblygiadau ariannol yn ychwanegol at y rhai y gellir eu bodloni gan ddefnyddio'r cyllidebau adrannol cyfredol, gan gynnwys staffio. Unwaith y caiff cynigion terfynol y Bil eu llunio, cynhelir asesiad arall o'r goblygiadau ariannol. Ni fydd unrhyw effaith uniongyrchol nac anuniongyrchol ar y gyllideb yn ystod blwyddyn ariannol 2014-15.

Gwybodaeth am effaith unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth y DU yn y portffolio ar y gyllideb

34. Ni wyddom am unrhyw effaith sylweddol a gaiff unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth y DU yn y portffolio ar y gyllideb.

**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

**CELG(4)-28-13 papur 3**

**Dyddiad: 24 Hydref 2013**

**Papur Tystiolaeth i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol gan y Gweinidog Cyllid**.

## Diben

Darparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i gefnogi'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2014-15.

## Cefndir

<u>Cyd-destun Strategol</u>

Mae'r **Rhaglen Lywodraethu** yn nodi ymrwymiad y Llywodraeth hon i ddatblygu cymdeithas decach lle y gall pawb wneud y gorau o'u galluoedd a chyfrannu at y gymuned y maent yn byw ynddi. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i ymgorffori cyfle cyfartal a chydberthnasau da yn ei chynlluniau gwariant a'i phrosesau cyllidebol drwy gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â'i chyllideb. Mae gweithio'n effeithiol ar draws portffolio pob Gweinidog a'r sector cyhoeddus ehangach i gyflawni'r canlyniadau rydym am eu gweld ar gyfer Cymru yn hollbwysig yn yr hinsawdd economaidd gyfredol.

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol** - Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Cydraddoldeb Strategol ym mis Ebrill 2012, yn dilyn ymgysylltu helaeth â'r cyhoedd. Mae'r cynllun a'r wyth Amcan Cydraddoldeb sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a geir ynddo, yn nodi meysydd o anghydraddoldeb dwfn ac yn nodi sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r rhain er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bobl Cymru. Rydym wedi sicrhau bod ein cynlluniau gwariant yn canolbwyntio nid yn unig ar bobl â nodweddion gwarchodedig yng Nghymru, ond hefyd ar sut y gallant gyfrannu at fodloni ein hamcanion o ran cydraddoldeb. Adlewyrchwyd hyn drwy gydol yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac yn Atodiad 1 i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a ystyriodd effaith bosibl ein cynlluniau gwariant ar y rhai â nodweddion gwarchodedig.

<u>Cyd-destun Cyfreithiol</u>

- Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i roi 'sylw dyledus' i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth, yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd warchodedig. Mae'r Dyletswyddau Penodol, fel y'u nodir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 wedi'u llunio er mwyn helpu awdurdodau i gydymffurfio a'u Dyletswydd Gyffredinol, ac maent yn cynnwys y gofyniad i asesu effeithiau posibl ar gydraddoldeb wrth i ni wneud penderfyniadau. Mae'r Asesiad

o Effaith y Gyllideb ar Gydraddoldeb yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru ddangos ei bod wedi rhoi 'sylw dyledus' i nodau'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol.

- Fel sail bellach i ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gydraddoldeb mae'r ddyletswydd o dan Adran 77 o **Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006,** i wneud trefniadau i sicrhau bod ei swyddogaethau'n cael eu harfer, gan roi sylw dyledus i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb.

**Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gyllideb**

- Llywodraeth Cymru oedd Llywodraeth gyntaf y DU i asesu effaith ei chynigion gwariant a, thros gyfnod yr Adolygiad o Wariant, mae wedi parhau i edrych ar sut y gall wella ei hymagwedd at asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.

- Ar ddechrau'r Adolygiad o Wariant yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru asesiad cynhwysfawr o effaith ei chynlluniau gwariant ynghyd â Chyllideb Derfynol 2011-12 ar gydraddoldeb. Mae llawer o'r gwaith hwn wedi parhau i fod yn berthnasol dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant. Yng ngoleuni hyn, nid yw Llywodraeth Cymru wedi ailadrodd yr asesiad manwl flwyddyn ar ôl blwyddyn ond mae wedi ceisio ategu'r gwaith hwn drwy asesu'r effaith yn y meysydd hynny lle y gwnaed newidiadau i'n cynlluniau gwariant.

- Ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2013-14, cymerodd Llywodraeth Cymru gamau pellach i wella ystyriaethau ei chynlluniau gwariant o ran cydraddoldeb drwy:
  - ystyried yr effaith ar grwpiau economaidd-gymdeithasol gwahanol, yn ogystal â'r effaith ar bobl â nodweddion gwarchodedig;
  - sicrhau yr ystyriwyd effeithiau ar gydraddoldeb o fewn y broses gwneud penderfyniadau ar gyfer dyraniadau cyfalaf ychwanegol;
  - cynnal darn o waith myfyriol i ddeall effeithiau dosbarthiadol penderfyniadau cyllidebol blaenorol;
  - sefydlu Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldebau.

**Cyllideb Ddrafft 2014-15**

- Cyhoeddwyd yr Asesiad o Effaith Cyllideb Ddrafft 2014-15 ar Gydraddoldeb ar 8 Hydref fel dogfen unigol. Dyma bedwerydd Asesiad Llywodraeth Cymru o Effaith ei Chyllideb Ddrafft ar Gydraddoldeb ac rydym wedi adeiladu ar y camau a gymerwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2013-14.

- Lluniwyd Cyllideb Ddrafft 2014-15 ar dair thema gyllidebol Twf a Swyddi; Cyrhaeddiad Addysgol; a Chefnogi Plant, Teuluoedd a Chymunedau Difreintiedig. Mae'r ymagwedd thematig hon yn ymateb uniongyrchol i'r argymhelliad yn adroddiad Ymchwiliad Gwerthfawrogol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ei hasesiadau ar y penderfyniadau strategol a wnaed.

- Rydym hefyd wedi gweithio i ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb ar gam cynnar er mwyn sicrhau bod ein penderfyniadau ar wariant yn cael eu llywio gan

ystyriaethau cydraddoldeb o'r cychwyn cyntaf ac yn cael eu dylanwadu ganddynt. Mae'r Asesiad o Effaith y gyllideb ar Gydraddoldeb yn nodi'n fwy manwl sut rydym wedi ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb yn y gwaith o ddatblygu ein cynigion o ran y gyllideb ond mae enghreifftiau allweddol yn cynnwys ein penderfyniad i:

- barhau i gefnogi ein **buddiannau cyffredinol**, sy'n fuddsoddiad yng ngwead cymdeithas ac sy'n ymyriadau allweddol o ran cefnogi pobl sy'n agored i niwed. Er nad yw'r math hwn o wariant yn canolbwyntio ar helpu grwpiau penodol o fewn cymdeithas, mae wedi'i anelu at helpu pawb sy'n wynebu caledi a phwysau ariannol yng Nghymru, sy'n cynyddu yn yr hinsawdd economaidd gyfredol, a chydnabyddwn hynny.

- diogelu arian ar gyfer ein **Hymrwymiadau Pump am Ddyfodol Tecach**, gan gynnwys **Twf Swyddi Cymru**, sy'n helpu i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a **Swyddogion Cymorth Cymunedol,** lle rydym yn cynnal ein hymrwymiad i roi 500 o swyddogion cymorth cymunedol ar y rhawd a'u cadw yno.

- darparu arian ychwanegol o £4.9m i gefnogi'r gwaith o weithredu **elfen digartrefedd y Bil Tai**. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod pobl ledled Cymru yn gallu manteisio ar dai boddhaol, fforddiadwy a bod pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn cael y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt, gan sicrhau effeithiau buddiol i'r rheini mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is a fydd yn cynnwys nifer fwy yn ôl cyfran o nodweddion gwarchodedig penodol.

* Mae'r dull hwn yn golygu y caiff ystyriaethau cydraddoldeb eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu ein cynlluniau gwariant yn hytrach na'u hystyried ar ddiwedd y broses.

**Ymateb i gwestiynau penodol a ofynnwyd gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

**Adolygiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

* Ym mis Hydref 2012, cynhaliodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ymchwiliad i'r ystyriaethau cydraddoldeb yng nghyllideb Llywodraeth Cymru. Cydnabu'r Pwyllgor y gwelliannau a wnaed eisoes i Asesiad Llywodraeth Cymru o Effaith y Gyllideb ar Gydraddoldeb, a nododd rai argymhellion pellach. Mae canfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor wedi llywio a gwella'r gwaith o ddatblygu'r Asesiad o Effaith Cyllideb Ddrafft 2014-15 ar Gydraddoldeb.

* Rhoddwyd ystyriaeth i'r argymhellion hyn, a nodir y canlyniad yn Atodiad A.

**Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu**

<u>Diwygio Lles</u>

- Wrth fynd i'r afael â'r her o reoli cyllideb sy'n lleihau mewn termau real, rhaid i ni hefyd ystyried her y penderfyniadau a wneir mewn meysydd annatganoledig. Yr un pwysicaf yw agenda Diwygio Lles Llywodraeth y DU, lle mae Llywodraeth y DU yn bwriadu gwneud gostyngiadau o tua £21bn yn 2014-15.

- Darparodd yr Asesiad o Effaith Cyllideb 2012-13 ar Gydraddoldeb asesiad o'r newidiadau arfaethedig i'r system treth a budd-daliadau gan Lywodraeth y DU. Nododd y dadansoddiad, gan fod y system treth a budd-daliadau yn annatganoledig, fod Llywodraeth Cymru wedi ei chyfyngu gan y penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU.

- Comisiynodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Lles raglen ymchwil mewn tri cham i asesu effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru. Mae tri cham yr ymchwil hon wedi'u cyhoeddi, a chafodd y cam olaf (y trydydd) ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2013. Roedd yr ymchwil hon yn rhan o'r dystiolaeth a ystyriwyd gan Weinidogion wrth ystyried yr Asesiadau o Effaith eu cynlluniau gwariant ar Gydraddoldeb.

- Oherwydd mwy o ddibyniaeth ar fudd-daliadau, bydd y diwygiadau lles hyn yn effeithio'n fwy ar Gymru na'r DU yn ei chyfanrwydd. Dengys tystiolaeth y bydd y newidiadau i fudd-daliadau lles yn cael effaith negyddol ar lawer o bobl anabl yng Nghymru. O gofio'r gyfran uchel o hawlwyr budd-dal anabledd yng Nghymru, mae'n debygol y caiff y diwygiadau lles effaith anghymesur. Mae effaith diwygiadau lles yng Nghymru i bobl anabl y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru o hyd, a chyfyngedig yw ein gallu i leihau unrhyw effeithiau sylweddol.

- Eto i gyd, ystyriwyd effeithiau'r diwygiadau hyn ar gydraddoldeb ar gyfer dinasyddion yng Nghymru. Lansiodd Llywodraeth Cymru ei Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol fis diwethaf gyda ffocws ar gydweithio i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i bobl anabl, gan eu galluogi i ymarfer dewis a rheolaeth yn eu bywydau bob dydd.

<u>Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb</u>

- Yn yr Asesiad o Effaith Cyllideb Ddrafft 2013-14 ar Gydraddoldeb, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i sefydlu Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb o fewn Llywodraeth Cymru (BAGE). Mae hwn bellach wedi ei sefydlu ac yn cynnwys nifer o gynrychiolwyr o sefydliadau cydraddoldeb yn y sector gwirfoddol, Llywodraeth Cymru a chynghorydd academaidd a benodwyd gan Weinidogion Cymru. Arweinir y grŵp gan y Gweinidog Cyllid a'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, gan ddangos ymrwymiad a rennir i gydraddoldeb.

- Rôl y grŵp hwn yw rhoi cyngor a rhannu arbenigedd ac arfer gorau o ran materion cydraddoldeb a fydd yn eu tro yn cefnogi'r broses o wella'r Asesiad o Effaith Cyllideb Llywodraeth Cymru ar Gydraddoldeb yn barhaus. Ffocws allweddol trafodaethau a gwaith y grŵp hyd yma fu meithrin dealltwriaeth o broses Cyllideb Llywodraeth Cymru ei hun, yr amgylchedd economaidd presennol, a'r ffordd y mae'r rhain yn cyfyngu ar ein hystyriaethau ynglŷn â

chydraddoldeb. Mae hyn wedi arwain at ffocws pendant ar bwysigrwydd creu sylfaen dystiolaeth gadarn, a sicrhau yr ymgysylltir â phobl sydd â nodweddion gwarchodedig ledled Cymru, fel y gellir nodi a deall natur y materion sylfaenol sy'n ymwneud â chydraddoldeb. Mae ymdriniaeth y grŵp yn eang ac mae ei ystyriaethau yn ehangach eu cwmpas na Deddf Cydraddoldeb 2010; mae hefyd yn anelu at sicrhau cysondeb rhwng penderfyniadau ac ystyriaethau cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Trechu Tlodi.

- Mae'r grŵp bellach wedi cyfarfod deirgwaith, ac er ei fod ar gam cynnar, mae eisoes wedi datblygu rhai syniadau ac awgrymiadau blaengar ynglŷn â'r broses asesu ac yn darparu fforwm ar gyfer cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb y Gyllideb ar lefel strategol.

- Mae'r grŵp hefyd wedi cydnabod ei rôl o ran craffu ar yr asesiad cyfredol o'r effaith a gynhaliwyd, ac o ran llywio gwelliannau hirdymor strategol i ystyriaethau cydraddoldeb ein penderfyniadau ar wariant yn y dyfodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud pob ymdrech i wella'r Asesiad o Effaith y Gyllideb Ddrafft ar Gydraddoldeb o flwyddyn i flwyddyn gyda chymorth y grŵp.

<u>Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol - Ymchwiliad Gwerthfawrogol</u>

- Y llynedd, gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad i weithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru i gynnal Ymchwiliad Gwerthfawrogol o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i gynnal yr Asesiad o Effaith y Gyllideb Ddrafft ar Gydraddoldeb.

- Cyhoeddwyd yr Adroddiad ar yr Ymchwiliad Gwerthfawrogol ym mis Tachwedd 2012. Tynnodd sylw at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella'r Asesiad o Effaith ei Chyllideb ar Gydraddoldeb a gwnaeth sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r cynnydd a wnaed eisoes. Roedd canfyddiadau'r Ymchwiliad Gwerthfawrogol yn cynnwys cyfres o argymhellion i wella proses yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ymhellach.

- Mae'r ffordd yr ydym wedi ymateb i'r argymhellion hyn wedi'i nodi yn Atodiad 3 i'r Asesiad o Effaith y Gyllideb Ddrafft ar Gydraddoldeb. Roedd sawl un o'r argymhellion o natur weithredol, a gweithredwyd ar y rhain a chânt eu cyflwyno yn y broses barhaus o wella'r Asesiad o Effaith y Gyllideb Ddrafft ar Gydraddoldeb dros y blynyddoedd i ddod.

**Gwariant Ataliol**

- Gwyddom fod ymyriadau y gallwn eu gwneud nawr a fydd yn osgoi pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill yn y dyfodol. Ar adeg o leihau cyllidebau, mae hyn yn bwysicach nag erioed. Dyna pam mae ymrwymiad i atal gwariant yn sail i Gyllideb Ddrafft 2014-15. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymgorffori egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn ein prosesau gwneud polisïau a phenderfyniadau.

- Mae hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal yn elfennau allweddol o ran sicrhau gwell ansawdd bywyd i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau i ddod. Mae enghreifftiau o'r modd yr ydym wedi ystyried gwariant ataliol yn cynnwys ein penderfyniad i:

  - ddiogelu a chynyddu arian ar gyfer y **GIG** - rydym yn dyrannu arian ychwanegol o £420m dros y ddwy flynedd nesaf ar gyfer y GIG yng Nghymru. Mae gwariant ar iechyd yn hollbwysig i iechyd a lles pobl Cymru yn y tymor hwy. Yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy a gwariant ataliol, cydnabyddwn ei bod yn well cadw pobl yn ffit ac yn iach na defnyddio adnoddau i ddatrys problemau y gellir eu hosgoi.

  - cynyddu arian ar gyfer y **Grant Gwasanaethau Cam-drin Domestig** i £4m yn 2014-15, sy'n cefnogi prosiectau i wneud dioddefwyr cam-drin domestig a'u plant yn fwy diogel, a gwneud iddynt deimlo'n fwy diogel; er enghraifft, drwy ariannu Llinell Gymorth Cymru Gyfan a darparu adnoddau i wella diogelwch eu cartrefi. Drwy hyn rydym yn ymrwymedig i gefnogi dioddefwyr a lleihau cyfraddau cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod a thorri cylch cam-drin o fewn teuluoedd.

  - parhau i fuddsoddi mewn **Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid** gyda ffocws ar ymyrraeth gynnar ac atal. Cynyddodd y gyllideb ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid 8% yn 2013-14 i ddod â'r gyllideb i £5.2m, ac fe'i dyrannwyd i'r Gronfa Atal Troseddau Ieuenctid a dwy fenter gyda Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru i dreialu prosiectau adsefydlu yn y gogledd a'r de a phrosiect rheoli achosion. Ar gyfer 2014-15, caiff y gyllideb ei chynnal ar y lefel hon. Mae'r gronfa hon yn canolbwyntio ar ddulliau amgen yn lle'r ddalfa a ffyrdd o atal plant rhag dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid yn y lle cyntaf. Y nod yw lleihau nifer y bobl sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid pan gânt eu hanfon i'r ddalfa am y tro cyntaf drwy gyfrwng dull cyfiawnder adferol arloesol yn lle cyhuddiad gan yr heddlu, ac mae'n darparu cyfleoedd i'r rhai yr effeithir yn uniongyrchol arnynt gan drosedd i gyfathrebu a chytuno ar sut i ddelio â'r drosedd a'i chanlyniadau.

- Rydym wedi ychwanegu at yr Asesiad o Effaith y Gyllideb Ddrafft ar Gydraddoldeb eleni drwy gynnwys trosolwg o'r effeithiau cronnol posibl y gall ein cynlluniau gwariant eu cael ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig yng Nghymru i gefnogi ffocws ar atal problemau rhag codi. Rydym yn ymwybodol bod y dystiolaeth ynghylch nodweddion gwarchodedig penodol yn gyfyngedig iawn, sy'n ei gwneud hi'n anodd iawn asesu effaith bosibl ein penderfyniadau ar wariant ar y grwpiau gwarchodedig hyn yn gywir. Bydd ein hasesiad parhaus o bob un o'n polisïau a'n strategaethau a'n hymgysylltiad â'r grwpiau gwarchodedig hyn yn helpu i wella sail y dystiolaeth, gan atgyfnerthu ein hasesiadau yn y dyfodol a llywio ein penderfyniadau ar wariant yn y dyfodol..

- Er mwyn lleihau anghydraddoldebau rhwng grwpiau o bobl, mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru yn nodi wyth Amcan Cydraddoldeb sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Cefnogir yr amcanion cydraddoldeb hyn gan gamau gweithredu ym mhortffolio pob Gweinidog ac fe'u datblygwyd yn dilyn ymgysylltu helaeth. Wrth asesu effaith ein cynlluniau gwariant rydym wedi ystyried sut y byddant yn helpu i fodloni ein Hamcanion Cydraddoldeb, gan helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cyfredol ac atal anghydraddoldebau yn y dyfodol. Mae hwn yn gynllun 4 blynedd, a chaiff ei gynnydd ei fonitro a chyflwynir adroddiad arno bob blwyddyn.

FA WALES | CBD CYMRU

VAUXHALL
THE WALES TEAM SPONSOR

11/12 Neptune Court
Vanguard Way
Cardiff
CF24 5PJ

11/12 Cwrt Neifion
Ffordd Blaen y Gâd
Caerdydd
CF24 5PJ

T 029 2043 5830
F 029 2049 6953
www.faw.org.uk

Christine Chapman AC / AM
Cadeirydd / Chair

10 October 2013

Dear Christine,

Thank you for your letter and for the opportunity to provide feedback as part of the inquiry into participation levels in sport.

I am pleased to say that following discussions on the 26th of September, we have investigated and identified the term 'golden vote' and can now clarify its meaning. It is apparent that this is an historical term and was removed from FAW practices and procedures many years ago.

The 'golden vote' was the 'Special Share' held by the FAW in The Football League of Wales Limited. The rights that were attached to the Special Share were set out in Article 6 of the company's Articles of Association, the relevant extract of which I highlight in Appendix 1 below. The Special Share allowed the FAW a veto on any matter listed in Appendix 1. The right was one of veto, rather than the right to compel the other shareholders to vote in favour of any particular measure. The veto applied only to the business of The Football League of Wales Limited and to no other entity.

It should be noted that the League of Wales now trades and operates through the FAW rather than through The Football League of Wales Limited. Indeed, the accounts for The Football League of Wales Limited for 2011 and 2012 are those of a 'dormant' company. On this basis, whilst The Football League of Wales Limited remains inactive, there is no forum in which the FAW would need to utilise the Special Share and exercise its veto. Furthermore, discussions with colleagues suggest that the 'golden vote' has not been in place for over eight years. I should also note that the 'golden vote' is not included in the Rules of the Welsh Premier League.

I hope this helps to clarify the matter. Please do not hesitate to contact me should you have any further queries.

Kind Regards,

Jonathan Ford
**Chief Executive**
**The Football Association of Wales**

BRAINS BEER
Good Call
T·M·Lewin
Pro-Copy
mitre
princes gate



Football Association of Wales Limited, Registered in London (England and Wales), Company Number 00213349.
FA WALES | CBD CYMRU is the trading name of Football Association of Wales Limited, Registered Office as above.

**Appendix 1**

*(B) Notwithstanding any provision in the Articles to the contrary, each of the following matters shall be deemed to be a variation of the rights attaching to the Special Share and shall be deemed to be a variation of the rights attaching to the Special Shareholder and without such consent shall not be done or caused to be done:*

*(a) The amendment, or removal, or the alteration of the effect of (which, for the avoidance of doubt, shall be taken to include the ratification of any breach of) all or any of the following:*

- *(i) The objects of the Company set out in clause 3 of the Company's Memorandum of Association;*
- *(ii) In Article 2 the definition of 'Special Share' or 'Special Shareholder';*
- *(iii) Article 4 (issue of Ordinary Share);*
- *(iv) This Article 6 (rights of Special Share);*
- *(v) Article 34 (number of directors);*
- *(vi) Article 75 (adherence to FAW rules); and*
- *(vii) Article 76 and 99 (winding up).*

*(b) Any change to the name of the Company;*
*(c) The variation of any voting rights attaching to any shares in the Company;*
*(d) The passing of a special resolution to wind up the Company;*
*(e) The making and adoption of or any amendment to, removal of or waiver of any of the provisions to the rules which relate to:*

- *(i) The name of the League of Wales;*
- *(ii) Number of clubs/promotion/relegation;*
- *(iii) Criteria for membership of the League of Wales;*
- *(iv) Obligation to enter the Welsh Cup;*
- *(v) Ownership of more than one club; and*
- (vi) *Rules common to the League of Wales and the contributory leagues.*